Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn y Swistir
**Heol Beili Glas**
**Dyffryn y Swistir**
**Felin-foel**
**Llanelli**
**SA14 8DS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Dyffryn Y Swistir

Mae Ysgol Gynradd Dyffryn Y Swistir wedi'i lleoli ar gyrion Llanelli, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae gan yr ysgol 246 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 14 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae naw dosbarth yn yr ysgol.

Cyfartaledd treigl tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 4%, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith gartref, ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym mis Mehefin, 2015. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn 2003.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir yn gymuned hapus a chynhwysol, lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gofalu am ei gilydd ac yn dangos agweddau parchus at staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn canmol y staff am eu gofal a'u cymorth.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu'n dda ar gyfer anghenion disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn llwyddo i ennyn chwilfrydedd disgyblion. Ceir trefniadau trylwyr ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol gyda ffocws clir ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae arweinwyr eraill, gan gynnwys y corff llywodraethol, yn ei gynorthwyo'n fedrus i gyflawni'r nodau hyn. Mae diwylliant o wella yn treiddio trwy'r ysgol, ac mae cynllunio ar gyfer gwella wrth wraidd ethos yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i ysgrifennu’n estynedig

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.*

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r disgyblion mwy abl yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso eu medrau i sefyllfaoedd newydd yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd, ac ar oedolion. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn mynegi eu hunain yn glir ac yn ymateb yn dda i gwestiynau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac esboniadau, ac yn deall bod hyn yn cyfrannu at eu dysgu. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn trafod eu gwaith fel gwyddonwyr fforensig yn fedrus ac yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen ystod eang o destunau gyda dealltwriaeth dda. Maent yn ynganu geiriau anghyfarwydd yn dda, gan ddefnyddio strategaethau ffoneg, ac yn nodi seiniau a geiriau sy'n ymwneud â gwahanol gymeriadau mewn storïau. Erbyn Blwyddyn 2, gall pob un o'r disgyblion siarad am eu hoff gymeriadau yn eu llyfrau, a'u disgrifio, er enghraifft y Gryffalo a'r Cawr Mwya Crand yn y Dre (Smartest Giant in Town). Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod o lyfrau yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen ar lefel uwch yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am y modd y mae plastig yn llygru'r moroedd ac ar hanes alcemeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddarllenwyr brwdfrydig sy'n awyddus i rannu eu gwybodaeth am lyfrau gydag ymwelwyr.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion, ac mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu astudiaethau diddorol o gymeriadau a cherddi acrostig ar yr hydref. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith ymchwil ysgogol ar Frenhines Fictoria a gwelliannau mewn meddygaeth trwy'r oesau. Mae disgyblion hŷn yn creu sgriptiau o ansawdd da ar siryf Nottingham, a disgrifiadau diddorol o Gulliver a'i deithiau. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'r gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn amharu ar ddatblygiad ysgrifennu estynedig disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau, ac yn ymateb i gyfarchion syml yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ymadroddion a geirfa syml yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml am eu hoffterau a'u casbethau, ac yn rhoi rheswm syml am eu barn. Mae llawer ohonynt yn cynnal sgyrsiau syml â'i gilydd, gan ddefnyddio patrymau brawddeg y maent wedi'u hymarfer mewn gwersi Cymraeg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cymhwyso’r fathemateg y maent wedi’i dysgu yn hyderus mewn gwersi i ddatrys problemau. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i ddeall amserlen fysiau syml er mwyn mynd ar daith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin arian yn llwyddiannus, ac yn defnyddio darnau arian yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu strategaethau cyfrifo effeithiol, gan ddefnyddio pedair rheol rhif yn fedrus i ddatrys problemau penodol. Er enghraifft, maent yn pwyso ac yn canfod y swm lleiaf o waed y mae angen i Igor ei archebu ar gyfer Cownt Dracula. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o siâp ac arwynebedd, a defnyddiant wahanol unedau’n gywir i fesur a phwyso. Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio eu syniadau mathemategol yn gywir wrth wneud cyfrifiadau.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion iau yn defnyddio rhaglenni’n effeithiol i gyflwyno testunau a lluniau yn ymwneud â storïau tylwyth teg. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ap yn llwyddiannus i greu graff bloc, er enghraifft wrth goladu gwybodaeth am arch arwyr go iawn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Er enghraifft, gallant ddefnyddio taenlenni yn hyderus i gyflwyno gwybodaeth, a mesur cost ac elw wrth werthu ‘bomiau bath’. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i chwilio’n ddiogel ar y rhyngrwyd, er enghraifft wrth ymchwilio i waith ar gyfer y testun ‘ynys alcemi’. Mae disgyblion hŷn yn cynllunio a chyflwyno gwersi cronfa ddata trwy’r dull ‘gwrth-droi ystafell ddosbarth’, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a’u hyder.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac maent yn gwybod y gallant siarad â staff os bydd ganddynt bryderon neu ofidiau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd ffordd iach o fyw. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta’n iach. Er enghraifft, maent yn dod â dŵr i’r ysgol i’w yfed ac mae llysgenhadon yr ysgol yn trefnu siop ffrwythau i hyrwyddo amseroedd egwyl iach. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn wybodus am Ddiwrnod Aren y Byd, ac yn elwa ar weithio gyda staff meddygol o ysbyty lleol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth eang o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol, fel hoci, pêl-droed bechgyn a merched, rygbi a thennis.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol mewn modd trefnus a phwyllog. Maent yn gwrtais ac ystyriol tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar iawn, ac mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel cyfeillion iard chwarae i helpu gofalu am y disgyblion iau amser egwyl.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy’n gweithio’n gytûn ac yn ddiwyd dros gyfnodau estynedig. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau’n dda mewn gwersi, ac yn

dangos penderfynoldeb i ddysgu pethau newydd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn mwynhau dysgu am gymesuredd trwy ddylunio baner hudo ar gyfer Blackbeard y môr-leidr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darganfod ffyrdd priodol o weithio trwy heriau. Er enghraifft, maent yn gofyn i ffrind am gymorth, ac yn defnyddio'r arddangosfeydd ysgogol yn yr ystafelloedd dosbarth i'w helpu pan fyddant yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae disgyblion yn ymgymryd â'u rolau arwain yn ddifrifol iawn ac yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau fel banc bwyd yr ysgol, ac yn rheoli stondinau ar gyfer ffair yr ysgol. Mae'r 'clwb garddio' yn hyrwyddo diwrnodau gardd agored yn yr ysgol ac mae'r 'tîm tec' yn codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch ar y rhyngrwyd ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i gefnogi elusennau amrywiol, ac yn cyfrannu at weithgareddau yn y gymuned. Maent yn meithrin ymwybyddiaeth o fywyd mewn gwledydd eraill ac mae ganddynt gysylltiadau agos ag ysgolion yn Lesotho a Gwlad Swazi. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn y byd ehangach, ac yn enwedig o broblem prinder dŵr mewn gwledydd eraill.

Yn y gorffennol, nid yw cyfraddau presenoldeb o gymharu â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg wedi bod yn ffafriol bob amser. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ffocws cynaledig yr ysgol ar wella presenoldeb, ac yn deall pwysigrwydd mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn. Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol mewn gwersi, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus a sylwgar, gan gynorthwyo'i gilydd yn dda yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn dda gyda disgyblion, ac yn darparu cyfarwyddiadau clir sy'n galluogi disgyblion i ymgymryd â'u tasgau yn hyderus. Maent yn cynllunio tasgau a gweithgareddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus, a gwnânt ddefnydd effeithiol o sesiynau llawn i werthuso dysgu disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn dda iawn ac yn arddangos mentrau proffesiynol cryf i alluogi'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol i weithio'n effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddeall syniadau newydd, a datblygu eu gwybodaeth a'u medrau. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn helpu disgyblion i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i fynd i'r afael â gwendidau yn eu gwaith. Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad disgyblion eraill, yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn myfyrio ar effeithiolrwydd y cwricwlwm yn rheolaidd, ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddatblygiadau tuag at y cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy

o gyfrifoldebau am eu dysgu.  Ar draws yr ysgol, mae ystafelloedd dosbarth yn lleoedd ysgogol ac mae athrawon yn dyfeisio gweithgareddau cyffrous i ennyn diddordeb disgyblion.  Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd arnynt eu bod yn wyddonwyr fforensig ac yn ymchwilio i safleoedd trosedd posibl.  Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u sefydlu'n dda a gall disgyblion fynd yn hawdd at yr ardaloedd awyr agored ar gyfer gweithio'n annibynnol.

Ceir cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.  Mae athrawon yn trefnu darpariaeth briodol i ddisgyblion ymarfer eu medrau ysgrifennu mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft trwy astudio hanes pyllau glo a merlod trwy'r oesau, a bywydau plant yn oes Fictoria.  Fodd bynnag, mae'r gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro medrau ysgrifennu estynedig disgyblion o bryd i'w gilydd.

Mae gan yr ysgol ddull blaengar o ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion.  Mae dosbarthiadau'n cynnal sesiynau rheolaidd 'helpwr y dydd', ac mae'r 'criw Cymraeg' yn rhagweithiol ar draws yr ysgol.  Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddathlu diwylliant a threftadaeth Cymru.  Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am Mari Jones a'i Beibl, a stori Gelert.  Mae disgyblion yn ymweld â llawer o leoedd o ddiddordeb, fel Amgueddfa'r Glannau a'r amgueddfa ryfel yn Abertawe, ac fe gaiff disgyblion hŷn gyfleoedd i siarad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.  Mae disgyblion hŷn yn mwynhau cyrsiau preswyl yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog a'r Ysgubor Hir, ger Llandysul, ac mae'r rhain yn helpu datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol, sy'n mynd ati i hyrwyddo lles pob un o'r disgyblion.  Mae staff yn meddu ar wybodaeth drylwyr am anghenion unigol disgyblion ac yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol, sy'n datblygu hyder a gwydnwch disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion.  Mae staff yn defnyddio'r ystod gynhwysfawr o ddata asesu yn fedrus er mwyn nodi disgyblion a fyddai'n elwa ar raglenni ymyrraeth amrywiol.  Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu medrus yn rhoi cymorth lleferydd ac iaith i ddisgyblion iau, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu medrau cyfathrebu.  Caiff disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol eu cynorthwyo trwy grŵp anogaeth, sy'n cael effaith fuddiol ar eu datblygiad personol.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro a chynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn effeithiol.  Mae map cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ar waith, sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ymwybyddiaeth fanwl o'r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr.  Mae athrawon yn llunio cynlluniau addysg unigol defnyddiol sy'n cynnwys targedau addas ar gyfer gwella.  Mae disgyblion ac athrawon, ynghyd â rhieni, yn adolygu cynnydd yn unol â'r targedau unigol yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Darperir byrbrydau iach amser egwyl, ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi eu datblygiad corfforol.  Mae disgyblion yn

dysgu trwy eu gwersi addysg gorfforol am effeithiau ymarfer corff ar eu cyrff. Ceir ystod dda o glybiau ar ôl yr ysgol sy'n cynnig gweithgareddau chwaraeon, fel pêl-droed bechgyn a merched, rygbi, hoci a thennis, a chlwb garddio llewyrchus hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn siarad yn gadarnhaol am yr ysgol, ac yn cadarnhau bod yr ysgol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am gynnydd eu plant, a'r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd. Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd gwaith da gydag asiantaethau allanol, ac yn gofyn am gyngor pan fo'n briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau agos iawn â Lesotho a Gwlad Swazi yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar wybodaeth gadarn am wledydd a diwylliannau eraill. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gwybodus.

Mae athrawon yn defnyddio gwasanaethau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am fathau o ffydd yn y byd, a myfyrio ar eu gwerthoedd eu hunain; er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am Mari Jones a'i phenderfynoldeb i gael Beibl. Maent wedi ymweld â Mosg ac eglwysi lleol hefyd, ac wedi elwa ar ymweliadau gan glerigwyr lleol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol a drama, fel cynhyrchiad o 'Oh What a Lovely War', a berfformiwyd mewn partneriaeth â'r theatr ieuenctid leol. Yn ogystal, mae côr yr ysgol yn perfformio'n lleol yn rheolaidd, er enghraifft yn nigwyddiad blynyddol y goeden Nadolig ac mewn lleoliadau cymunedol eraill.

Ceir trefniadau effeithiol i sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd profiadol, sy'n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae wedi sefydlu gweledigaeth sy'n canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo lles a chyflawniad disgyblion. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu gan yr uwch dîm rheoli, staff a llywodraethwyr. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion, ac mae wedi creu amgylchedd gofalgar ac ysgogol iawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu, ac yn gwneud cynnydd da.

Mae uwch arweinwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol, ac yn cynorthwyo'r pennaeth yn fedrus. Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau manwl, maent yn gweithio'n fedrus fel tîm ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda i ddatblygu gwahanol feysydd y cwricwlwm, er enghraifft i gyflwyno cynllun llythrennedd er mwyn gwella medrau ffoneg disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau darllen ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae staff yn gofyn i rieni'n rheolaidd am eu safbwyntiau ar sut gallant helpu eu plant gartref.

Mae'r ysgol hefyd yn darparu ystod ddiddorol o weithdai ar gyfer rhieni, er enghraifft ar strategaeth y Gymraeg a'r strategaeth fathemategol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddo wybodaeth ddigonol effeithiol am gryfderau a gwendidau'r ysgol, ac mae'n cynnig lefel briodol o her. Mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol gwybodus i dîm arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cyfrannu'n fuddiol at y broses hunanwerthuso, er enghraifft trwy drafodaethau ag uwch arweinwyr a theithiau dysgu.

Mae prosesau llwyddiannus ar waith i werthuso perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o ffynonellau i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft trwy ddadansoddi data, monitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn bwrpasol. Mae'r ysgol hefyd yn casglu safbwyntiau staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cyfrannu at wella tir yr ysgol, offer chwarae a llwybrau at wahanol rannau o'r ysgol. Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau'r prosesau hunanwerthuso, ac yn gweithredu yn unol â nhw i amlygu meysydd tanberfformio a nodi blaenoriaethau perthnasol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad cadarn ar waith. Nodwedd gref o waith yr ysgol yw ei llwyddiant yn darparu llawer o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu wedi cael hyfforddiant gwerthfawr ar dechnegau therapi lleferydd ac iaith, mentrau llythrennedd ac ymyriadau emosiynol ac ymddygiadol. Mae staff yn cynorthwyo'i gilydd yn dda ac mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn arwain a rheoli'r ysgol yn llwyddiannus, yn enwedig pan fydd y pennaeth yn gweithio ar safle ysgol arall am ddeuddydd yr wythnos.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dan do yn darparu lle deniadol ac ysgogol i ddisgyblion ddysgu, a gallant fanteisio ar adnoddau digonol, o ansawdd da. Mae'r amgylchedd awyr agored yn eang ac mae gan ddisgyblion y cyfnod sylfaen amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da.

Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi cronni diffyg yn y gyllideb y mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn mynd i'r afael ag ef. Mae gan yr ysgol gynllun busnes effeithiol a thrylwyr a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn dyrannu'r gyllideb yn briodol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i gynorthwyo'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol â'u medrau llythrennedd a rhifedd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019